| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **5 MAI 2016** |
| TEITL | **HAWLIADAU YSWIRIANT YN ERBYN Y CYNGOR** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **RHOI CYFLE I'R PWYLLGOR ARCHWILIO GRAFFU TREFNIADAU'R CYNGOR AR GYFER DELIO Â HAWLIADAU YSWIRIANT** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod Chwefror o'r Pwyllgor Archwilio yn amlinellu'r hawliadau yswiriant a wnaed yn erbyn y Cyngor yn 2013/14 a 2014/15, gan ddangos y rhai y bu modd i'r Cyngor eu hamddiffyn yn llwyddiannus, a'r rhai ble bu costau gan y Cyngor a/neu y cwmni yswiriant.

1.2 Roedd yr adroddiad yn ymateb i erthyglau yn y wasg yn dilyn cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn y maes.

1.3 Mae'r adroddiad yma yn cynnig diweddariad i'r eitem hwnnw, gan gynnwys yr wybodaeth berthnasol ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16.

1.4 Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am ddelio â materion yn ymwneud â risg, ac mae ymdrin â hawliadau yswiriant yn rhan o hynny. Felly, er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau fel "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu", mae angen i'r Pwyllgor Archwilio:

- **Dderbyn yr adroddiad yma sy'n egluro'r trefniadau o fewn Cyngor Gwynedd er mwyn delio gyda hawliadau yswiriant.**
- **Craffu'r drefn sydd yn ei le, er mwyn bod yn glir fod gan y Cyngor drefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau fod taliadau yswiriant yn briodol.**

## 2. TREFNIADAU CYNGOR GWYNEDD O DDELIO Â HAWLADAU YSWIRIANT

2.1 Pwrpas yr Uned Yswiriant a Risg yw:

***Cefnogi adrannau'r Cyngor wrth iddynt asesu'r bygythiadau a chyfleon all eu hwynebu wrth ddarparu eu gwasanaethau a blaenoriaethu eu gweithgareddau ar sail yr asesiad. Amddiffyn buddiannau trethdalwyr drwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â hawliadau***

2.2 Mae dau swyddog yn gweithio yn yr Uned, sef y Rheolwr Cydlynu Risg ac Yswiriant, a Swyddog Yswiriant

2.3 Mae'r tabl sydd wedi ei gynnwys y Atodiad 1 yn cynnwys manylion yr holl hawliadau yswiriant a setlwyd yn 2015/16.

2.4 O gofio pwrpas yr Uned, prif fesur perfformiad ein bod yn cyflawni ein pwrpas yw **Amddiffyn budd ariannol y trethdalwr: canran o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a wadwyd (setlwyd am £0)**.

2.5 Mae dadansoddiad o'r holl hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwr at setlwyd yn 2013/14, 2014/15 a 2015/16 yn dangos y canlynol:

**Atebolrwydd Cyhoeddus**

| | **2013/14** | **2014/15** | **2015/16** |
|---|---|---|---|
| Nifer hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus wedi eu cau, gyda costau | 33 **(26%)** | 26 **(22.2%)** | 18 **(21.2%)** |
| Nifer hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus wedi cau, heb gostau | 94 **(74%)** | 91 **(77.8%)** | 67 **(78.8%)** |
| Cyfanswm nifer yr hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus wedi eu cau | 127 | 117 | 85 |

**Atebolrwydd Cyflogwr**

| | **2013/14** | **2014/15** | **2015/16** |
|---|---|---|---|
| Nifer hawliadau Atebolrwydd Cyflogwr wedi eu cau, gyda costau | 5 **(55.6%)** | 3 **(43%)** | 2 **(25%)** |
| Nifer hawliadau Atebolrwydd Cyflogwr wedi cau, heb gostau | 4 **(44.4%)** | 4 **(57%)** | 6 **(75%)** |
| Cyfanswm nifer yr hawliadau Atebolrwydd Cyflogwr wedi eu cau | 9 | 7 | 8 |

**Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwr gyda'i gilydd**

| | **2013/14** | **2014/15** | **2015/16** |
|---|---|---|---|
| Nifer hawliadau Atebolrwydd wedi eu cau, gyda costau | 38 **(28%)** | 29 **(23.4%)** | 20 **(21.5%)** |
| Nifer hawliadau Atebolrwydd wedi cau, heb gostau | 98 **(72%)** | 95 **(76.6%)** | 73 **(78.5%)** |
| Cyfanswm nifer yr hawliadau Atebolrwydd wedi eu cau | 136 | 124 | 93 |

2.6 **Hynny yw, yn 2013/14 setlwyd 72%, yn 2014/15 setlwyd 76.6%, ac 2015/16 setlwyd 78.5% o hawliadau atebolrwydd yn erbyn Cyngor Gwynedd heb gostau.**

## 3. RÔL Y CWMNI YSWIRIANT

3.1 Roedd pob un o'r achosion sydd wedi eu rhestru yn yr Atodiad yn destun "excess" o £25,000 (ag eithrio dau achos yn dyddio cyn 1 Ebrill 2006, lle roedd yr "excess" yn £10,000). Cyngor Gwynedd oedd yn talu unrhyw gostau ar yr hawliadau unigol hyd at y trothwy yma, a'n cwmni yswiriant yn talu unrhyw symiau uwchben hynny.

3.2 Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn Chwefror y bydd "excesses" ein polisïau Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwr yn cynyddu i £50,000 o fis Ebrill 2016 ymlaen. Ar sail dadansoddiad fanwl o'n hawliadau yn y gorffennol, daeth yr Adran Gyllid i'r casgliad y byddai'n gam resymol i gynyddu'r "excesses" yn y ffordd yma er mwyn manteisio ar y premiwm llawer is a fyddai'n deillio o hynny er fod posibilrwydd, wrth gwrs, y gallai ein costau gynyddu petai nifer yr hawliadau llwyddiannus yn ein herbyn yn cynyddu.

3.3 Bydd felly yn her barhaus, ar y cyd â holl wasanaethau'r Cyngor, i reoli ein risgiau yswiriadwy er mwyn lleihau damweiniau a chyhuddiadau o esgeulustod, nid yn unig am resymau ariannol, ond er lles ein cydweithwyr a'r cyhoedd.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio:

- **Dderbyn yr adroddiad yma sy'n egluro'r trefniadau ar gyfer delio gyda hawliadau yswiriant.**
- **Craffu'r drefn sydd yn ei le, er mwyn bod yn glir fod gan y Cyngor drefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau fod taliadau yswiriant yn briodol.**